# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Mai 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 8

## Gwobr i fusnesau lleol

WALES
PRESTIGE AWARDS
2025/26 WINNER

Llongyfarchiadau i Angie and Graham Hughes, Tŷ Ceffyl Bach, ar ennill y categori Siop Rhoddion y Flwyddyn yn y Wales Prestige Awards. Bwriad sefydlu'r gwobrau hyn oedd dathlu'r busnesau a'r unigolion sy'n cynnig yn gyson gynhyrchion a gwasanaethau ardderchog. Hefyd cafodd Tŷ Ceffyl Bach ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau'r Gynghrair Cefn Gwlad. A phen blwydd hapus i'r siop yn flwydd oed!

Llongyfarchiadau hefyd i'r siop gymunedol a ddaeth yn ail yn ei chategori yng Ngwobrau'r Gynghrair Cefn Gwlad. Cyflwynodd Hannah Thomas, gohebydd materion gwledig ITV Cymru i (o'r ail ar y chwith) Jackie Le Fevre, Emyr Morris, Ivan Butler a Viv Rosser.




## Y fainc newydd

Mae'n dda gweld y fainc newydd gyferbyn â'r hen hufenfa, safle Procter Johnson bellach, yn ei lle. Rhoddwyd y fainc i'r pentref gan *Llais Llandyrnog Voice* a'i gosod gan Jones Bros. Cydlynwyd y gwaith i gyd gan Gyngor Cymuned Llandyrnog a gobeithiwn y bydd trigolion Llandyrnog yn ei defnyddio. Diane a Chris Jones awgrymodd osod mainc yn y fan honno, fel man gorffwys hanner ffordd i fam Diane, Gladys, sy'n mwynhau cerdded o'r Waen i ganol y pentre.



*Yn sefyll, o'r chwith: Ruth Griffith, Cadeirydd Pwyllgor Llais Llandyrnog Voice; Diane a Chris Jones. Yn eistedd, o'r chwith: Gladys Langford Jones; Gwen Butler, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandyrnog; Huw Jones, Cyfarwyddwr Cwmni Jones Bros.*

# Pytiau newyddion

**Dymuniadau da…** i Jordan Deaves ac Undeg Steffan ar achlysur eu priodas yng Nghapel y Dyffryn, ddydd Sadwrn 19 Ebrill dan arweiniad y Parch. Robert Parry. Roedd presenoldeb y Pibydd yn chwarae cerddoriaeth pibgod, a'r dynion o'r Alban yn eu ciltiau yn rhoi naws arbennig i'r achlysur. Byddan nhw'n ymgartrefu yng Nghaeredin.



… i Laura Godfrey-Brazier yn ei chartref newydd, Brookside;

...am wellhad buan i Evelyn Weyman ar ôl cael anaf, ac i'r Parch. Sam Quilty ar ôl cyfnod o afiechyd;

… Leusa Jên Williams, Mabon Evans, Beth Erin Evans, Tyler Chown, a Mason a Lloyd Powell, a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd y mis.

**Bore coffi** Diolch i bawb a gefnogodd hwn er budd eglwys St Tyrnog – codwyd £600. Ardderchog!

**Diwrnod agored y gerddi cymunedol:** Bydd Tai Sir Ddinbych yn cynnal digwyddiad yn y gerddi wrth yr arhosfan bysiau gyferbyn â Maes Llan ddydd Sadwrn, 10 Mai, o ganol dydd tan 3 o'r gloch. Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at cydnerthu.cymunedol@sirddinbych.gov.uk.

## BORE COFFI

Mind Vale of Clwyd Dyffryn Clwyd — RABI helping farming people

**Bore Sadwrn, 24 Mai**
**yn Neuadd y Pentre, 10:00–11:30**
**Dewch am baned a sgwrs**
**Stondin gacennau a raffl …**
**Am ragor o fanylion,**
**ffoniwch Bryn ar 07585 170592**

**Digwyddiadau yn yr hwb cymunedol**

**15 Mai:** Sgrabl a gemau bwrdd eraill

**Dydd Gwener, 10–canol dydd**: sesiwn galw heibio gyda Chyngor ar Bopeth

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

**(sylwch na fydd y siop ar agor ar ddydd Sul)**

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm

Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Gwe | $2^{il}$ | Grŵp cwiltio, 1.30–3.30pm |
| Llun | $5^{ed}$ | Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | $6^{ed}$ | Grŵp cyfeillgarwch, 7–9pm |
| Mer | $7^{fed}$ | Cyfarfod pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | $12^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | $13^{eg}$ | Clwb Llyfrau, 10am |
| Mer | $14^{eg}$ | Undeb y Mamau, 2pm |
| Sad | $19^{eg}$ | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Maw | $20^{fed}$ | Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | $21^{ain}$ | Tuesday Club, 2pm |
| Iau | $22^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | $24^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 10am–ganol dydd |
| Maw | $27^{ain}$ | Clwb Llyfrau, 10am |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| $4^{ydd}$ | 11.15 | Boreol Weddi |
| $11^{eg}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| $18^{fed}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $25^{ain}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| $11^{eg}$ | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| $18^{fed}$ | 10.00 | Trafodaeth a phaned |
| $25^{ain}$ | 9.45 | Debbie Roberts |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Iau $1^{af}$ | Digwyddiad y siop gymunedol | 7–9pm |
| Gwe $2^{il}$ | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad $3^{ydd}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Mer $7^{fed}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe $9^{fed}$ | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sul $11^{eg}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun $12^{fed}$ | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw $13^{eg}$ | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer $14^{eg}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe $16^{eg}$ | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad $17^{eg}$ | Bore coffi: Cymorth Cristnogol | 10–11.30am |
| Llun $19^{fed}$ | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer $21^{ain}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe $23^{ain}$ | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad $24^{ain}$ | Bore coffi: Mind a RABI | 10–11.30am |
| Gwe $30^{ain}$ | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |

**Bore coffi**

**Bore Sadwrn, 17 Mai, 10–11.30 yn Neuadd y Pentre**

**Derbynnir rhoddion at y stondin cynnyrch cartref yn ddiolchgar**
**Croeso cynnes i bawb!**

# Capel y Dyffryn

**Yr Ysgol Sul** Roedd 12 o blant a rhieni wedi dod i'r Ysgol Sul 6 Ebrill i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Pasg. Fe wnaethon ni ardd Basg, lliwio croes bren y Pasg ac wedyn fe gafodd y plant gyfle i fynd i chwilio am wyau pasg o gwmpas y Capel. Arddangoswyd yr ardd yn y Gymanfa Ganu.








**Y Gymanfa Ganu** Unwaith eto eleni cafwyd Cymanfa Ganu Sul y Blodau lwyddiannus iawn bnawn Sul, 13 Ebrill dan arweiniad medrus Trystan Lewis a Rhys Roberts wrth yr organ. Daeth pobl o bell ac agos i'r Gymanfa gyda chanu oedd yn codi calon. Cafwyd datganiadau hyfryd iawn gan Gwenan, Pen y Bryn.



Cyflwynwyd a diolchwyd i bawb gan Aeron. Diolchwyd yn arbennig i Bryn ac Anwen am yr holl drefniadau, yr holl wirfoddolwyr a'r nawdd hael gan Gyngor Cymuned Llandyrnog, R W Roberts a'i Fab a Bara Henllan a rhoddion unigol, tuag at y costau. Mwynhaodd nifer luniaeth ysgafn a sgwrs yn y festri yn dilyn y Gymanfa. Roedd yr elw'n mynd tuag at Gofal Dydd Waen Goleugoed ac adeiladau'r Capel.

**Pen blwydd hapus** hwyr i Gwyneth Evans, Bodfan gynt, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 80 ym mis Ebrill.

**Dymuniadau da** i Nest Mars Lloyd a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd y mis.

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod ym mis Mai croesawyd Doro Roberts o Nantglyn, a wnaeth arddangosiad gwych o osod blodau. Creodd Doro dri threfniant hardd ac fel erioed, tra oedd hi'n brysur gyda'r blodau, rhoddodd gyflwyniad difyr dros ben. Roedden ni i gyd mor genfigennus o'i sgìl gyda blodau – mae hi bob amser yn gwneud iddo edrych mor hawdd!

# Diolch yn fawr




Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'n bore coffi i godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru – mae eich cefnogaeth, eich rhoddion caredig, a'ch cwmni hyfryd yn werth y byd!

Diolch i'ch haelioni, codwyd y swm anhygoel o £2,400 ar gyfer y gwasanaeth achub bywyd hwn. Bydd pob ceiniog yn helpu i gadw Ambiwlans Awyr Cymru i hedfan a gwneud gwahaniaeth go iawn.

Pan fydd gennych ferch ag anghenion ychwanegol, eich pryder mwyaf bob amser yw sut y bydd yn cael ei derbyn a beth fydd barn pobl amdani. Ond mae gweld y cariad at Ruby a'r gefnogaeth iddi wedi bod yn wych. Mae gwybod ei bod nid yn unig yn cael ei derbyn ond yn cael ei charu'n fawr gan gynifer, yn golygu cymaint.

Diolch yn arbennig i fy nghynorthwywyr anhygoel, rydych chi'n gwybod pwy ydych chi! Fyddwn i ddim wedi gallu ei wneud hebddoch chi. O osod y neuadd, i weini, pobi, glanhau, a phopeth arall, rydych chi i gyd yn sêr!

Diolch eto o waelod calon.

*Vicky Owen*

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Gemau pêl-droed Cynghrair yr Haf

Nos Iau 1af Mai cic gyntaf 7pm
Llangynhafal v Llandyrnog

Nos Fawrth 6ed Mai cic gyntaf 7pm
Llandyrnog v Cefn

Nos Iau 8ed Mai
Llandyrnog heb gêm

Nos Lun 12fed Mai cic gyntaf 7.15pm
Henllan v Llandyrnog

Nos Iau 15fed Mai cic gyntaf 7.15pm
Llandyrnog v Caerwys

Nos Lun 19eg Mai cic gyntaf 7.15pm
Llanfair v Llandyrnog

Nos Iau 22ain Mai cic gyntaf 7.15pm
Llandyrnog v Ysceifiog

Nos Fawrth 27ain Mai cic gyntaf 7.15pm
Rhewl v Llandyrnog

Nos Iau 29ain Mai cic gyntaf 7.15pm
Llandyrnog v Llanrhaeadr

J & G
TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Fy meic modur cyntaf

Yn dilyn erthygl ddiddorol Hazel am ei char cyntaf fis diwethaf a breuddwyd beic modur Bryn, penderfynais rannu rhywbeth hanner ffordd rhwng y ddau...

Mae'n 1977. Roedd fy nhad wedi rhoi rhywfaint o arian i mi ar gyfer gwersi gyrru ond gan fy mod newydd ddechrau swydd yn Wrecsam (ac yn enaid annibynnol a oedd yn hoff o dynnu'n groes hyd yn oed bryd hynny) defnyddiais yr arian i brynu moped Honda C90 Step-thru gan Wrexham Scooters. Rhoddodd hyn fwy o annibyniaeth i mi na'r gwersi gyrru posibl oherwydd gallwn reidio ar fy mhen fy hun, yn syth bìn, ar drwydded dros dro. (Doedd dim CBT bryd hynny, Bryn) Cytunodd Dad i hyn (gan ei fod yn arfer reidio motobeics ei hun) ond dim ond os byddwn i'n cael "hyfforddiant iawn".

Y tro cyntaf i mi fynd allan ar ôl cael y C90 gael ei danfon oedd am sbin rownd y lonydd cefn ger Rhewl, a minnau wedi cyffroi'n lân. Yn anffodus, doeddwn i ddim eto wedi meistroli'r grefft o bwyso i gornel ac roedd hynny'n broblem ar y troad siarp cyntaf i mi ddod ato – es i'n syth yn fy mlaen! Yn ffodus doedd dim byd yn dod i gyfarfod â mi ac roedd y ffermwr wedi gadael giât ar agor. Pan lwyddais i stopio ychydig i lawr lôn y fferm, des i oddi ar y beic, ei droi o gwmpas a mynd adref eto. Fe wnes i archebu rhywfaint o hyfforddiant ar ôl hynny.

Roedd y moped bach yma yn wirioneddol ddarbodus, roedd y tanc hanner galwyn o betrol a oedd o dan y sedd yn para am oesoedd. Roeddwn i'n mynd i Wrecsam arno bob dydd, ond yn anaml yn cyrraedd dros 30 mya. Roedd Bwlch Nant y Garth a'r ffordd y tu hwnt i Landegla yn dipyn o her yn enwedig os oedd y gwynt yn chwythu tuag ata i, ond roedd hyn yn dal i fod yn well na mynd ar y bws! Fodd bynnag, roedd gan y beic ei ddiffygion, ar ôl i newydd-deb annibyniaeth golli ychydig ar ei sglein.. Roedd yn araf, roedd popeth yn fy ngoddiweddyd i (yn rhy agos o lawer fel arfer). Dim ond tri gêr oedd gan y beic a *centrifugal clutch* (dim lifer *clutch* – diffodd y sbardun, stampio ar bedal y geriau,



agor y sbardun). Roedd amseriad y newid gêr yn hollbwysig, os oeddech chi'n ei wneud yn anghywir roeddech chi mewn perygl o gael eich taflu ymlaen – neu'n waeth, yn stopio'r beic ac yn edrych yn ffŵl go iawn wrth i chi geisio ei ddechrau wrth y goleuadau traffig...

Yna gwelais Honda CB 200 yn Davies Bros, Caer. Roedd hwn yn feic modur iawn, 198cc, coch a du, roedd ganddo gicdaniwr a oedd yn gweithio y tro cyntaf, tanc petrol tri galwyn, brêc disg blaen a lifer *clutch* oedd wedi'i chysylltu â PHUM gêr. Yr adeg honno, roeddech chi'n gallu reidio beic hyd at 250cc ar drwydded dros dro, felly dyma oedd yr un i mi. Roeddwn y beic yma gymaint yn haws i'w reidio ac roeddwn i'n mynd i bobman arno, yn





**Conservatories**



- Survey, supply and fit:
  - conservatories
  - orangeries
  - verandas
  - porches
  - windows
  - doors

**07546 911871**

# Fy meic modur cyntaf: parhad

yr haul, eira, gwynt a glaw. Dyma oedd fy null i o deithio. Os oedd angen i mi fynd i rywle byddwn i'n mynd ar y beic waeth beth oedd y tywydd.

Cefais fy nhrwydded beic modur lawn yn 1978 ac yna dechreuais ar y cwrs hyfforddi uwch. Dyna agoriad llygad – dysgais gymaint am sgiliau gyrru ar ffyrdd, a chymerais ato fel hwyaden at ddŵr. Doedd dim cymaint o feicwyr modur benywaidd o gwmpas, gwnes y prawf yn gwisgo dillad lledr ail law oedd heb eu dylunio ar gyfer merched, ond roeddwn wedi dod o hyd i weithgaredd y gallwn ei fwynhau'n fawr a'i wneud i safon eitha da am unwaith yn fy mywyd! Roedd yn ddiwrnod balch pan basiais fy mhrawf beic modur uwch yr IAM. Gofynnwyd i mi hefyd helpu i ddysgu pobl i reidio motobeics ar fore Sul o amgylch meysydd parcio a ffyrdd Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug a mwynheais hynny'n fawr.



Aeth 11 mlynedd arall heibio cyn i mi ddysgu gyrru car a 25 mlynedd arall cyn i mi sefyll (a phasio) y prawf car IAM. Mae'r gwersi hunan-ddiogelu ac arsylwi a'r sgiliau gyrru ar ffyrdd a ddysgais wrth reidio'r beiciau modur hyn (a mwy o faint) yn sicr wedi bod o fudd imi a byddwn yn ei argymell i unrhyw un. Gofalwch eich bod yn cael "hyfforddiant iawn".

*Gwen Butler*

# Gild Trefoil

Cyfarfu'r gild yng nghartref aelod yn Ninbych a dangoswyd fideo ddiddorol iawn o dref Dinbych yn y gorffennol a sut yr adeiladwyd neuadd y dref. Mwynhawyd lluniaeth a thynnwyd y raffl. Bydd y cyfarfod nesa yn yr Ystafelloedd Coco a byddwn yn chwarae bingo!

Sylwoch chi ar ein stori ffŵl Ebrill yn y rhifyn diwetha? Yn anffodus, bydd y cae yn dal i fod ar ychydig o oledd.

# Newyddion da

*Mae'r gymuned wedi bod yn llwyddiannus mewn cael arian o'r Gronfa Lefelu. Yn unol â thelerau'r grant, bydd yn talu am lefelu a gwastatáu cae pêl-droed Cae Nant. Mae hi wedi bod yn anodd penderfynu p'run sydd orau, chwarae'r hanner cyntaf ar i fyny neu ar i lawr, felly dylai hyn helpu capteiniaid timau yn y dyfodol.*

TY CEFFYL BACH
Facebook 07768 331488 Instagram
www.tyceffylbach.co.uk
info@tyceffylbach.co.uk
4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**



# Rysáit

## Biff brwysio Tsieineaidd

**Digon i 6**

3–4 llwy fwrdd o olew olewydd
6 ewin o arlleg, wedi'u sleisio'n denau
Darn o wreiddyn sinsir, maint eich bawd, wedi'i blicio a'i dorri'n fân
Bwnsiaid o sibols/shibwns
1 tshili coch, heb yr hadau ac wedi'i sleisio'n denau
3 phwys 5 owns o biff brwysio –*braising beef*, wedi'i dorri'n ddarnau mawr
2 lwy fwrdd o flawd plaen, gyda digon o halen a phupur
1 llwy de obowdwr pum sbeis Tsieineaidd
2 seren anis
2 lwy de o siwgr crai – *muscovado* – golau
3 llwy fwrdd o win coginio Tsieineaidd neu sieri sych
3 llwy fwrdd o saws soi tywyll
18 owns hylif o isgell biff
Bok choy wedi'i stemio a reis basmati wedi'i stemio

Cynheswch 2 lwy fwrdd o olew mewn padell fawr, fas rydych yn gallu ei defnyddio i ffrio ac i'w rhoi yn y popty. Ffrïwch y garlleg, sinsir, sibols/shibwns a'r tshili am 3 munud, nes eu bod nhw'n feddal. Rhowch nhw ar blât.
Gorchuddiwch y biff yn y blawd, rhowch lond llwy fwrdd arall o olew yn y badell, wedyn browniwch y cig fesul ychydig, gan ychwanegu'r llwyaid olaf o olew os oes angen.
Ychwanegwch y pum sbeis a'r sêr anis i'r badell, arllwyswch y cymysgedd sinsir a.a. iddi, yna ffrïwch y cyfan am funud, nes y bydd aroglau pêr ar y sbeisys.
Ychwanegwch y siwgr, wedyn y biff, a throwch y cyfan i gyfuno'r cynhwysion i gyd. Cadwch y gwres yn uchel, wedyn ychwanegwch y gwin neu'r sieri. Cynheswch y popty i 150 °C/ffan 130 °C/Nwy Marc 2.
Tywalltwch y saws soi a'r isgell i'r badell, cynheswch y cymysgedd nes y bydd yn mudferwi, rhowch orchudd tyn drosto a'i roi yn y popty am ryw ddwy awr, gan droi'r cig ar ôl awr.
Rhowch y bok choy yn y badell, a gweinwch y saig gyda reis basmati.
Mae hwn yn ffefryn yn ein teulu ni. Rydw i hefyd yn defnyddio cluniau cyw iâr yn lle biff, ac isgell cyw iâr yn lle isgell biff. Mae'r ddau yn hynod flasus!

*Lyn Rose*

# Llan Llanast



Yn ein sesiwn ym mis Ebrill dysgon ni am sut y marchogodd Iesu i mewn i Jerwsalem ar asyn. Roedd yr holl bobl yn chwifio canghennau palmwydd, a dyna esbonio'r enw Sul y Blodau. Roedden nhw i gyd yn bloeddio ac yn gweiddi 'Hosanna'. Buon ni'n gwneud dail palmwydd a'u chwifio nhw wrth ganu 'Cân Hosanna', a gwneud palmwydden enfawr, a chafodd y plant hwyl fawr yn gwneud hyn. Buon ni hefyd yn gwneud palmwydd allan o ffrwythau a fwytaon ni wedyn gyda'n pryd. Clywsom yr hanes am Iesu yn marw ar y groes ddydd Gwener y Groglith ac yna'n dychwelyd yn fyw ddydd Sul y Pasg. Fe wnaethon ni i gyd fwynhau ein hwyau Pasg sydd nid yn unig yn flasus, ond hefyd yn cynrychioli bywyd newydd yn Iesu.

Bydd ein sesiwn nesaf ar 11 Mai ac mae croeso i bawb ymuno â ni – blant, dewch ag oedolyn gyda chi!

# Y Grŵp Cyfeillgarwch

Cyfarfu'r Grŵp Cyfeillgarwch yn yr Ystafelloedd Coco ddydd Mawrth, 1 Ebrill. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Jackie Le Fevre ar *Swyn y Stori*, ac wedyn cwis ar ddweud stori. Mae hi'n amhosibl profi hyn, ond awgrymwyd bod dweud stori wedi datblygu'n fuan iawn ar ôl i iaith ei hun ddatblygu. Rydym ni'n gwybod bod pob diwylliant ar hyd yr oesoedd wedi dweud storïau. Mae'r dystiolaethau gynharaf am storïau yn dod o luniau ogofâu yn Lascaux a Chavaux, Ffrainc, sy'n dyddio'n ôl dros 17,000 mlynedd.

Fodd bynnag, mae'r ffordd ryden ni'n cyfathrebu gydag eraill wedi newid yn syfrdanol dros amser. Cychwynnodd dweud stori gyda storïau gweledol fel lluniau ogof, ac yna symud ymlaen i fod yn draddodiad llafar – lle pasiwyd storïau o genhedlaeth i genhedlaeth ar dafod leferydd.

Mae pawb wedi cael y teimlad wrth ddarllen llyfr na fedrwch chi ollwng gafael ynddo fo, yr un lle mae'n rhaid i chi ddarllen pennod arall, neu'r llyfr sy'n eich hudo yr eiliad fyddwch chi'n darllen y paragraff cyntaf? Sut mae cadw diddordeb y darllenydd – dim gormod o ffeithiau a ffigyrau i gymhlethu'r stori? Ar ddiwedd y sesiwn, roedden ni wedi dysgu llawer! Does wybod, falle bod yna egin ysgrifenwyr stori ymysg ein grŵp ni erbyn hyn!

Cawsom ddiwrnod hyfryd wrth ymweld â'r Theatr yr Empire yn Lerpwl a mwynhau gweld *War Horse* yno.



Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 6ed Mai am 7 o'r gloch pan fydd Anwen Davies yn sôn am gyd-ddigwyddiadau.


**Prompt Travel**

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

**Teithiau Prydlon**

Tacsi a Hurio Preifat


## Cyngerdd

**Côr Meibion Caerwys**

**a cherddorion ifanc lleol**

**Nos Sadwrn 4 Hydref am 7**

**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**

**Toccynnau £10, plant am ddim**

**Yr elw at Eglwys St Tyrnog**

**NODWCH Y DYDDIAD!**

# Aduniad teuluol

Mae ymholiad gan ddyn o Wrecsam ym mis Gorffennaf 2024 a oedd yn ymchwilio i hanes ei deulu, wedi arwain at aduniad teuluol yn y tŷ lle bu eu perthnasau yn byw rywbryd ar ôl 1910.

Cysylltodd Ryan Edwards ag aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan trwy gyfrif Twitter y *Llais* yn wreiddiol, ar ôl ymweld ag eglwys Llandyrnog i weld y gofeb ryfel. Prynodd gopi o gyhoeddiad y Gymdeithas, *Llandyrnog a Llangwyfan Y Rhyfel Mawr 1914 – 18 The Great War.* Roedd y llyfr yn cynnwys adran ar ei ddiweddar hen hen ewythr, Frank Owen, sy'n cael ei goffáu ar gofeb ryfel Llandyrnog.

Gyda help perthynas, cysylltodd Ryan â thri pherthynas arall, o Awstralia a'r Deyrnas Unedig, ac fe wnaeth hyn ei alluogi i ddysgu hyd yn oed mwy am ei deulu.

Roedd hen nain Ryan, Ellen, yn chwaer i Frank Owen. Roedd Frank bob amser yn uchel ei barch gan ei deulu ac mae Ryan yn gwybod am Frank ers pan oedd yn ifanc iawn. Roedd hyn oherwydd bod ei fam-gu yn cadw daliwr bocs matshys (celf ffosydd) ar y lle tân gydag arysgrif arno.



Mae ganddo hefyd luniau o Frank ei hun, o garreg fedd wreiddiol Frank yn Ffrainc a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan un Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, a dwy o fedalau Frank a roddwyd iddo gan un o nithoedd Frank, modryb oedrannus.

Ganwyd Frank Owen ar 12 Rhagfyr 1888 ac roedd yn byw gyda'i rieni, William a Margaret, a'i frodyr a'i chwiorydd yn Abergele. Erbyn 1911 roedd y teulu wedi symud i Ben Llwyn lle parhaodd ei dad i weithio fel ciper ym Mron Yw.

Doedd dim sôn am Frank fel rhan o'r teulu yng Nghyfrifiad 1911 gan ei fod wedi ymfudo yn 1910 i Sydney, Awstralia. Daeth yn ddinesydd y wlad wrth iddo ymuno â Byddin Awstralia bedair blynedd yn ddiweddarach. Ymunodd Frank ag 20fed Bataliwn Llu Ymerodrol 1af Awstralia (AIF) a gadawodd ei fataliwn Awstralia ar long a chyrraedd Ffrainc ar 25 Mawrth 1916. Buon nhw mewn brwydrau niferus ar Ffrynt y Gorllewin.

Ar 11 Tachwedd 1916, cafodd Frank ei glwyfo a'i dderbyn i Brif Orsaf Triniaeth Frys 1af Anzac ond bu farw a chladdwyd ef yr un diwrnod ym Mynwent Dartmoor, Bécordel-Bécourt, Plot 11, F2 (mae ei garreg fedd wedi'i nodi'n anghywir fel Owens).

Yn sgil ymchwil pellach gyda Jane, perthynas Ryan, drwy Ancestry, daeth i gysylltiad â Greg Jones, o Awstralia. Ei daid oedd Tom Owen, un o frodyr Frank oedd hefyd wedi ymfudo i Awstralia. Yna rhoddodd Greg y newyddion cyffrous i Ryan ei fod ef a'i wraig wedi cynllunio taith i'r Deyrnas Unedig, ac yn bwriadu aros yn Llandudno yn ystod un o'r wythnosau hynny.

Ddydd Llun 31 Mawrth 2025, cyrhaeddodd Greg a'i wraig Kerrianne Gymru a chyfarfod â Ryan, ei dad, ac aelodau eraill o'r teulu. Dyma'r tro cyntaf i'r teulu gyfarfod ers dros 100 mlynedd.

Cafodd Ryan, ei dad David 78 oed (a ymwelodd ddiwethaf â Phen Llwyn pan oedd yn 19 oed), Greg a'i wraig Kerrianne, groeso cynnes ym Mhen Llwyn gan y perchnogion presennol, Cindy a Miles Courtney. Rhannwyd straeon, gwybodaeth a llawer o fanylion gan ddatgelu mwy fyth am hanes y teulu a hanes Pen Llwyn.

# Aduniad teuluol: parhad



*Greg, Cindy, Miles, Ryan a David ym Mhen Llwyn*

Ddydd Gwener yr wythnos honno cyfarfu Greg, Kerrianne, Ryan a David unwaith eto, y tro hwn yn Wrecsam. Ymwelon nhw â gwahanol leoliadau sy'n gysylltiedig â Margaret a William, a chwrdd â brawd David, a'i chwaer, Jillian. Dangosodd Jillian luniau teuluol o Margaret, William a'u plant i Greg a Kerrianne, rhai nad oedd Greg erioed wedi'u gweld o'r blaen.

Roedd Tom Owen wedi anfon darn o waith les drosodd at ei fam a chafodd hwn ei roi yn y pen draw i Anti Jill. Rhoddodd hi'r gwaith les i Ryan ar ôl ei holl ymdrechion i ddod o hyd i'r teulu allan yn Awstralia. Mae'r geiriau 'Hands Across the Sea' ar y darn a gwireddwyd y geiriau hyn o'r diwedd gyda llun Greg, David a Ryan yn ei ddal yn ystod ymweliad Greg â Wrecsam.




# Buddugoliaeth yn Ewrop

Pan ildiodd yr Almaen Natsïaidd i'r Cynghreiriaid o'r diwedd ar 7 Mai 1945, roedd hyn yn nodi diwedd chwe blynedd hir o ymladd pan fu farw 450,000 o drigolion y Deyrnas Unedig – a thua 70,000 ohonyn nhw'n sifiliaid.

I ddathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, bydd adeiladau hanesyddol yn cael eu goleuo'n goch ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Castell Dinbych.

Ar 7 Mai bydd Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan, yn arwain Gwasanaeth Cenedlaethol o Ddiolchgarwch yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a fydd yn dod ag uwch arweinwyr Cymreig o sawl maes ynghyd, ochr yn ochr â'n cyn-filwyr, Bechgyn Bevin, Merched y Tir a chynrychiolwyr eraill y ffrynt cartref.

Ac yn lleol, nos Iau, 8 Mai bydd coffâd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych, 7–9pm. Bydd yr eitemau'n cynnwys cerddoriaeth gan yr unawdydd Kathryn Nash ac ysgolion lleol, a darlleniadau barddoniaeth. Tocynnau £5 i gynnwys lluniaeth, o Lle Llinos a Kerry a Siop Clwyd (arian parod yn unig).




*Dathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn Llandyrnog yn 1946. Ar y llwyfan, o'r chwith: Derek Parry, Ann Evans, Joyce Hughes, Alma Lloyd, Shirley Evans, Len Wynne, George Pritchard, Merfyn Langford. (Diolch i Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan am y llun).*

# Hanesion Hazel

Eleni, hyd yn hyn, rydym wedi cael gwanwyn braf, cynnes a sych, a'r bylbiau cennin Pedr a thiwlipau'n manteisio'n llawn ar y tywydd hwn, ac yn edrych yn wych. Ym mis Mai mae blodau gwyllt cynnar y coetir wedi gorffen, a dail y coed yn dechrau agor a'r dirwedd yn glasu. Dyma adeg mwynhau blodau lliwgar yn ymddangos ar ein cloddiau ac ymylon ffyrdd. Mae gorthyfail – *cow parsley* – fel petai'n dod i'r golwg dros nos ac mae Bob y Cob wrth ei fodd yn bachu llond ceg o'r blodau pluog ysgafn hyn – rhaid bod ganddyn nhw flas melys. Mae'n gwneud hyn yn annisgwyl pan nad wyf yn canolbwyntio ac yn tynnu'r ddau ohonom i'r clawdd agosaf.



Arwydd sicr o'r gwanwyn, i mi, yw blodau'r ddraenen wen gyda'i lliwiau gwyn a phinc a'i arogl ychydig yn felys; ond blodyn ag arogl cryf yn y gwanwyn yw'r eithin. Mae llethrau ein bryniau yn dechrau troi'n felyn wrth i'r planhigion llachar hyn ymddangos. Dyma'r arogl dwi'n disgwyl yn eiddgar amdano – rydych yn clywed yr arogl cnau coco a fanila hwnnw yn yr awyr ar brynhawn heulog poeth.

Mae'r blodau'n fwytadwy ond mae blas chwerw arnyn nhw. Gwell i chi eu hel ar noson heulog yn gwisgo menig trwchus gan fod dail neu ddrain y llwyni'n bigog, yn finiog fel rasel. Dwi'n eu hel i wneud gwin cartref sy'n lliw euraidd, yn lled felys a blas blodeuog nodedig arno, a rhyw fymryn o flas cnau coco.

Pan fydda i wedi eu hel yn llwyddiannus, heb anaf, dwi'n trwytho'r blodau mewn bwcedaid o ddŵr wedi'i ferwi dros nos ac yna'n ychwanegu siwgr a'i fudferwi nes y bydd wedi hydoddi. Pan mae'n oer, dwi'n ychwanegu sudd lemwn a burum i eplesu'r cymysgedd. Yna caiff y bwced sy'n dal y cymysgedd ei roi mewn lle cynnes, fel cwpwrdd crasu dillad, i eplesu. Mae eplesu yn broses naturiol sydd wedi cael ei defnyddio ers miloedd o flynyddoedd. Mae burum gyda bacteria yn yr awyr yn cynhyrchu ensymau sy'n torri carbohydradau i lawr gan ryddhau egni. Mae'r broses hon yn trosi'r siwgr yn alcohol a charbon deuocsid. Byddwch yn gwybod bod y broses gychwynnol hon yn gweithio oherwydd bydd arogl bragdy yn llenwi'r cwpwrdd crasu dillad a bydd hi'n bryd hidlo'r cynnwys a'i roi mewn *demi-john* i ddal i eplesu. Bydd yr hylif hwn yn cael ei adael i eplesu yn y *demi-john* gyda chlo aer. Mae'r clo aer yn hanfodol bwysig. Mae wedi'i lenwi â dŵr a bydd yn byrlymu gan ryddhau'r nwy carbon deuocsid yn araf ond ei brif bwrpas yw atal ocsigen rhag mynd i mewn i'r hylif. Byddai hyn yn effeithio ar yr eplesiad ac yn difetha'r gwin. Pan fydd y byrlymu wedi gorffen a'r hylif yn glir, bydd gwaddod trwchus ar y gwaelod. Gellir hidlo'r gwin a'i drosglwyddo drwy seiffon i boteli i'w gadw am ryw naw mis ac yna ei fwynhau.

Dwi wedi gwneud gwin allan o lawer o blanhigion – dail derw, danadl poethion, mwyar duon a blodau ysgaw. Mae siampên blodau'r ysgaw yn ffefryn arbennig ac yn gwneud diod befriog ysgafn, hyfryd yn yr haf.

Mae sawl damwain wedi bod, gyda photeli'n ffrwydro'n annisgwyl, cŵn afieithus yn taro'r *demi-johns* ac yn gollwng eu cynnwys, ond mae'r cyfan yn rhan o'r hobi gwerth chweil hwn a gallwn ni i gyd fwynhau ei ganlyniad terfynol.

Hazel

# Ysgol Bryn Clwyd

Ar ddechrau Ebrill, bu dathlu mawr yn Ysgol Bryn Clwyd, wrth i ni ennill yr e-steddfod! Dyma fersiwn ar-lein o'r eisteddfod draddodiadol, lle bu ysgolion ledled Cymru'n cystadlu ar Zoom. Cawsom ni lwyddiant mawr gyda'n gwaith cartref a chanlyniadau llwyfan,



gyda Lettie yn ennill y Goron am ysgrifennu creadigol mewn Saesneg. Bu disgyblion o oed meithrin hyd at flwyddyn 6 yn cymryd rhan, a chawsom ni ddiwrnod braf yn cefnogi ein ffrindiau a gwylio'r cystadlaethau a'r canlyniadau'n cyrraedd.

Cwblhaodd Dosbarth y Babanod ei thema 'Oes y Cerrig' trwy ymweld ag ogof go iawn ym Mharc Gwledig Tafarn y Celyn.



Aeth y Dosbarth Iau i Lyn Brenig i weld y gweilch, pilcota mewn pyllau ac ymweld â chanolfan trin dŵr yr Alwen.



Cwblhaodd Dosbarth Iau eu thema ar dirnodau drwy ddylunio arwyddnod i ddenu twristiaid i'r ardal. Daeth y Cynghorydd Parry i'r ysgol i wrando ar eu cyflwyniad a dewis y grŵp buddugol a ddyluniodd olwyn Ferris siâp daffodil.

Diolch enfawr i Cadwch Gymru'n Daclus – Gogledd Ddwyrain Cymru, Y Tŷ Gwyrdd a Chyngor Sir Ddinbych am ddigwyddiad cynllunio Llwybr y Pasg a Gardd Gymunedol! Cyfle perffaith i ddod ag aelodau Cymuned Llandyrnog, Cymuned Llandyrnog ynghyd i drafod cynlluniau ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw ein gardd gymunedol newydd anhygoel yma yn YBC. Roedd y plant wrth eu bodd yn yr helfa wyau (gyda thro annisgwyl!) Cysylltwch os hoffech chi hefyd gymryd rhan neu gefnogi mewn unrhyw ffordd.





Cafodd pawb amser gwych yn y Bingo Pasg yn neuadd y pentref – diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad.

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

**Thomas Pennant, Naturiaethwr, Teithiwr ac Awdur yn Nyffryn Clwyd**

Daeth nifer dda ynghyd i wrando ar Dr Paul Evans yn rhoi sgwrs ddiddorol iawn i aelodau'r Gymdeithas fis Mawrth yn y Neuadd. Bu'n dilyn ôl troed Thomas Pennant wrth iddo grwydro drwy Ddyffryn Clwyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Roedd Dr Paul Evans, sy'n wreiddiol o Garmel, yn athro am ugain mlynedd yn Ysgol Brynhyfryd, ac yna'n bennaeth ar Ysgol Uwchradd Dinbych am dair blynedd ar ddeg.

Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn hanes, ac mae wedi ysgrifennu sawl llyfr ar fywyd a gwaith Thomas Pennant. Roedd yn un o ddau oedd yn gyfrifol am sefydlu Grŵp Thomas Pennant. Erbyn hyn, mae wrthi'n ysgrifennu ei gyfrol gyntaf amdano ar gyfer 2026 – blwyddyn dathlu geni Thomas Pennant 300 mlynedd yn ôl.

Bu Thomas Pennant, y naturiaethwr, y teithiwr a'r awdur yn byw ar y stad deuluol yn Neuadd Downing ger Chwitffordd, Sir Fflint drwy gydol ei fywyd.

Rhoddodd ein siaradwr grynodeb o sylwadau diddorol Pennant wrtho iddo deithio drwy Ddyffryn Clwyd. Bu'n sôn am Leweni, Eglwys Wen, Gwaenynog, Llannerch, Llanrhaeadr, Rhuthun, Bach y Graig, Plas Bodrhyddan, a Llanelwy. Drwy ei sylwadau, a thrwy ddawn artistig Moses Griffiths, gellir gweld cymaint oedd ei gariad a'i werthfawrogiad o dir a phobl Cymru.

Soniodd Paul hefyd am gyfeiriadau yn llyfr Pennant at Langwyfan a Llangynhafal, e.e. plasty Fron Yw a'r eglwys ei hun.

Bydd ein cyfarfod nesaf 14 Mai am 7 o'r gloch pan fydd yr Hybarch Bernard Thomas, ein cyn-gadeirydd, yn rhoi sgwrs i ni ar Eglwys Llandyrnog, a byddwn yn cyfarfod yn yr eglwys

Croeso cynnes i bawb i gyfarfodydd y gymdeithas gydag aelodau ddim ond yn talu £8 am raglen flynyddol o 4 cyfarfod ac ymwelwyr/eraill £3 y cyfarfod. Darperir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd pob cyfarfod. Am ragor o fanylion, ymholiadau, i ymuno â'r gymdeithas neu i wirfoddoli i fod yn rhan o'r prosiectau, e-bostiwch Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan ar llangwyfanhistory@hotmail.com.



*O'r chwith: Julia Hughes, cadeirydd; Dr Paul Evans gyda llyfr Pennant; Rona Aldrich, swyddog busnes.*

**Cymdeithas Hanes Lleol**

**LLANDYRNOG & LLANGWYFAN**

**NODWCH Y LLEOLIAD GWAHANOL**

**EGLWYS LLANDYRNOG**

**Nos Fercher, 14 Mai am 7pm**



**Stori Eglwys St Tyrnog**

**gan yr Hybarch E. Bernard Thomas**

Y siaradwr yng nghyfarfod mis Ebrill oedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Dave Jones. Roedd wedi ei wahodd i'r cyfarfod i sôn am dwyll – sgamio, gan fod hyn yn broblem gynyddol yn ein cymdeithas.


Rhoddodd wybodaeth a chyngor gwerthfawr iawn am sut i ofalu nad oes neb yn eich twyllo a dangosodd yr aelodau ddiddordeb mawr yn ei sgwrs. Hefyd rhoddodd fanylion fudiadau ac elusennau sy'n gallu helpu os ydych yn poeni am dwyll.

Tynnwyd y raffl a gweinwyd lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 21 Mai yn yr Ystafelloedd Coco am 2 o'r gloch.

1. Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth bersonol (enw, cyfeiriad, manylion banc, e-bost neu rif ffôn) i sefydliadau na neb arall cyn gwirio eu bod yn ddilys.
2. Gofalwch fod gan eich cyfrifiadur feddalwedd firws cyfoes a mur gwarchod.
3. Ni fydd banciau na sefydliadau ariannol yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi glicio ar ddolen a chadarnhau eich manylion banc. Peidiwch ag ymddiried mewn negeseuon e-bost o'r fath, hyd yn oed os ydyn nhw yn edrych yn ddilys.
4. Cofrestrwch ar gyfer *Verified by Visa* neu *MasterCard Secure Code* bryd bynnag y cewch yr opsiwn wrth siopa ar-lein. Mae hyn yn rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch i drafodion ar-lein gyda manwerthwyr sydd wedi cofrestru.
5. Dylech gael copi o'ch ffeil credyd yn rheolaidd a'i wirio am gofnodion nad ydych yn eu hadnabod. Gall Callcredit, Equifax ac Experian i gyd ddarparu eich ffeil credyd.
6. Dinistriwch dderbynebau gyda manylion eich cerdyn banc neu gerdyn credyd arnyn nhw, a phost â'ch enw a'ch cyfeiriad arno. Yn well byth, rhwygwch nhw'n ddarnau mân.
7. Os ydych yn cael biliau, anfonebau neu dderbynebau am bethau rydych chi heb eu prynu, neu gan sefydliadau ariannol nad ydych fel arfer yn delio â nhw, neu os ydyn nhw'n cysylltu â chi ynghylch dyledion, gweithredwch. Mae'n bosibl bod rhywun wedi dwyn eich manylion adnabod.
8. Byddwch yn wyliadwrus iawn o lythyrau, galwadau ffôn neu e-byst sy'n cynnig bargeinion busnes anarferol i chi. Os yw cynnig yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debygol ei fod. Byddwch yn amheus drwy'r amser.
9. Os ydych wedi dioddef twyll, peidiwch â chael eich twyllo gan dwyll adennill twyll. Dyma pryd mae twyllwyr yn cymryd arnyn nhw eu bod yn gyfreithiwr neu'n swyddog gorfodi'r gyfraith ac yn dweud wrthych ei bod yn gallu eich helpu i adennill yr arian yr ydych eisoes wedi'i golli.
10. Os oes angen Cyngor arnoch am dwyll neu drosedd seiber, cysylltwch ag Action Fraud, canolfan hysbysu twyll y Deyrnas Unedig ar 0300 123 2040. Am ragor o fanylion, ewch i https://www.actionfraud.police.uk/welsh.

## Bore Ebrill yn y pentre

Ceir yn deffro yn y niwl,
gwylanod y ffatri yn galw,
bwncath ar postyn yn disgwyl bach,
hen gath yn bwrw ar lygoden fain,
y bryniau yn dangos eu hunain
yn eu dillad gwyrddlas
a botymau melyn yr eithin,
y lloi bach du yn anadlu yn gynnes
a'r ceffylau yn sefyll yn llonydd
yn disgwyl symudiadau'r fferm,
blodau newydd yn chwilio am yr haul,
hogla'r baw ar y caeau
a llinellau miniog yr aradr,
oen bach yn carlamu tu ôl i'r gwrychoedd,
hen eglwys y plwyf yn cysgu
a'r meirw yn gorffwys dan y briallu
melyn, melyn, melyn.
Bore braf yng ngwlad y gân.



*Jane Borthwick*

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- Anfonodd yr heddwas cymunedol fanylion dau ddigwyddiad a gafodd eu riportio ers y cyfarfod diwethaf – lladrad o dŷ haf gan westai a damwain ffordd heb anafiadau.
- Er hynny, roedd rhai pryderon a godwyd ar y cyfryngau cymdeithasol am rywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl a bydd yr heddwas cymunedol yn cael gwybod am hyn.
- Cawsom ein hatgoffa fod y trefniant o ddefnyddio gweinydd Cyngor Sir Ddinbych i gael y rhyngrwyd yn yr Ystafelloedd Coco i fod i ddod i ben ym mis Mehefin a bod angen ystyried trefniadau eraill.
- Cafwyd llythyr o ddiolch gan Gapel y Dyffryn yn diolch am y rhodd hael a arweiniodd at gymanfa ganu lwyddiannus iawn.
- Mae ymgynghoriad wedi dod ynglŷn â phlannu coed yn ardal Fron Gelyn a Fferm Llangwyfan ac nid oedd gan y cynghorwyr bryderon, ar yr amod nad yw'n effeithio ar unrhyw lwybrau cyhoeddus.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi cael dau wely blodau uchel a llawer o fagiau o gompost di-fawn ac uwchbridd i'w llenwi. Rhoddwyd un i'r ysgol i ychwanegu at eu gardd gwelyau blodau uchel bresennol, a'r llall i'r Prosiect Rhandiroedd.
- Mae Tai Sir Ddinbych wedi trefnu digwyddiad ar 10 Mai ar gyfer prosiect y Gerddi Cymunedol.
- Mae'r fainc wedi ei gosod ac mae angen trefnu cyfle i dynnu lluniau – mae hyn mewn llaw.
- Arolwg cyfranogiad cymunedol – bydd ffurflenni ar gael yn y siop fel bod trigolion yn cael dweud eu dweud am yr hyn yr hoffen nhw ganolbwyntio arno yn y pentref i'w wneud yn lle gwell a brafiach i fyw ynddo – o fewn cyllideb gyfyngedig.
- Cafwyd rhodd hael iawn o £250 gan deulu sy'n dymuno bod yn ddienw. Bydd yr arian yn cyfrannu at brynu blodau ar gyfer y blychau o gwmpas yr ardal a'r gylchfan. Derbyniwyd y rhodd yn ddiolchgar ac anfonir cerdyn i ddiolch i'r teulu.
- Penderfynwyd gofyn am ddau ddyfynbris ar gyfer addurno ystafell waelod yr Ystafelloedd Coco yn dilyn y gwaith adnewyddu.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*